

# Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2019/20

## Cyd-destun a chefnidir

### Yr ysgol

Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yng Nghasnewydd yw Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant yn ac mae'n rhan o wasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer y de-ddwyrain. Mae gan yr ysgol 1,433 o ddysgwyr ar y gofrestr: mae 14.5 y cant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM); mae gan 16.7 y cant anghenion dysgu ychwanegol (ADY); mae gan 21.9 y cant Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL). Y rhaniad rhwng y rhywiau yn yr ysgol yw 50.8 y cant yn fechgyn a 49.2 y cant yn ferched.

### Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae'r tîm arwain yn cynnwys chwe uwch arweinydd gan gynnwys y pennaeth yn ogystal â 47 o aelodau staff sydd â chyfrifoldebau dysgu ac addysgu. Mae gan Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant 87 o aelodau staff ac mae 76 ohonyn nhw yn llawn amser ac mae 11 yn rhan-amser.

### Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd yr ysgol £77,195 ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr 2019 a Mawrth 2020.

## Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Defnyddiodd Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant y grant dysgu proffesiynol mewn sawl ffordd:

- codi ymwybyddiaeth o *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*, sicrhau bod staff yn gwbl barod ar gyfer y cwricwlwm newydd a sicrhau bod pob aelod o staff yn ymarferwyr hynod fyfyrion
- creu gweledigaeth ysgol gyfan ar gyfer dysgu proffesiynol parhaus, datblygu cynnig dysgu proffesiynol parhaus cynhwysfawr a strategol ar gyfer pob aelod o staff a sicrhau bod yr holl ddysgu proffesiynol parhaus yn seiliedig ar ymchwil
- gweithio gydag ysgolion y clwstwr i ddatblygu dull cyson o ddiwygio'r cwricwlwm, ymholi a rhannu arfer gorau
- ymgymryd â gwaith ysgol i ysgol
- datblygu dull ysgol gyfan o alw i gof, modelu, adborth a llafaredd

- datblygu staff sy'n ymgysylltu ag ymchwil a sicrhau bod yr holl staff yn ymwneud ag ymholi
- creu dull Ysgol Uwchradd Joseff Sant o ymholi
- gweithio gydag asiantaethau allanol.

## Effaith y grant ar staff ar draws yr ysgol

Effaith y grant dysgu proffesiynol ychwanegol yw ei fod wedi caniatáu i'r ysgol:

- ddiweddarau'r holl staff ynglŷn â diwygio'r cwricwlwm ac *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*
- archwilio a defnyddio'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth
- gweithio ar y cyd â'r holl staff i ddatblygu ei ymarfer
- cynorthwyo staff i ddod yn athrawon-ymholwyr
- annog yr holl staff i ymwneud ag ymchwil
- gweithio ar y cyd ag ysgolion eraill
- gweithio ar y cyd ag ysgolion clwstwr
- cynnig cyfleoedd i staff cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau myfyriol yn ymwneud ag addysgeg
- cynnig cyfleoedd i aelodau o staff greu eu llwybrau gyrfa eu hunain
- darparu amser i staff weithio o fewn meysydd dysgu a phrofiad
- darparu amser i staff weithio gyda dysgwyr i ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

Mae'r canlyniadau o'r arolwg ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu hefyd wedi rhoi gwybod i'r ysgol bod agwedd gadarnhaol gyson yn ymwneud â chyfranogiad aelodau o staff yn eu datblygiad eu hunain a datblygiad eraill a'u bod nhw'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr uwch dîm arwain.

## Effaith y grant ar ddysgwyr

O ganlyniad i ddysgu proffesiynol mae dangosyddion perfformiad allweddol Cyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth wedi gwella.

Mae'r hyfforddiant a'r coetsio a ddarparwyd ar strategaethau galw i gof megis 'Big Sheet' a modelu wedi arwain at bron bob canlyniad yn rhagori ar ddisgwyliadau a fodelwyd neu eu bod yn unol â hynny.

Hefyd, bu cynnydd o 14 y cant yn nifer y dysgwyr sy'n cyflawni pump neu fwy o raddau A\*–A wedi'i seilio ar adborth a chanfyddiadau'r prosiect ysgol i ysgol yn ymwneud â dysgwyr mwy abl a thalentog. Yn ogystal â hynny, roedd y sgôr pwyntiau wedi'i chapio 26.3 pwynt yn uwch na'r disgwyliadau a fodelwyd sy'n dangos bod her a chymorth priodol ar gyfer yr holl ddysgwyr.

## Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol

- Mae amser yn ffactor allweddol i sicrhau bod gan yr holl staff a'r clwstwr yr amser i gynllunio ar y cyd ar gyfer y cwricwlwm newydd.
- Mae'n hanfodol bod yr holl randdeiliaid yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.
- Mae angen amser i gynllunio yn strategol ar gyfer dysgu proffesiynol parhaus yn unol â chynllun datblygu'r ysgol ac anghenion personol y staff.
- Mae angen cynllunio yn ofalus ac yn strategol ar gyfer newid.
- Mae cynllun dysgu ac addysgu tair blynedd wedi'i ddatblygu yn unol â blaenoriaethau'r ysgol.
- Mae cynllun cwricwlwm manwl wedi ei ddatblygu.

## Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill

- Mae angen cynllunio'n ofalus ac yn strategol ar gyfer newid.
- Cynllunio cyfarfodydd a diwrnodau HMS yn strategol.
- Mae angen i'r holl ddogfennau allweddol gyd-fynd â'i gilydd.
- Mae camau gweithredu manwl megis cynllun dysgu ac addysgu tair blynedd yn ofynnol.
- Mae cynllun cwricwlwm manwl yn ofynnol.
- Mae cynnig dysgu proffesiynol parhaus cynhwysfawr ac wedi'i deilwra i'r unigolyn yn angenrheidiol i gynorthwyo a datblygu'r holl staff.
- Mae gweithio ysgol i ysgol yn hollbwysig.
- Mae gweithio ar y cyd â'r clwstwr yn sicrhau cysondeb.
- Cynnwys yr holl randdeiliaid yn y broses.
- Rhannu'r negeseuon allweddol diweddaraf yn ymwneud â diwygio gyda randdeiliaid.